



Strategaeth Cymru yr YHA 2022

Dogfen sgwrsio

Rydym yn datblygu strategaeth benodol i Gymru yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r YHA yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Rydym yn croesawu eich barn ar y cynigion drafft a nodir yma.



Ni yw YHA

Rydym yn credu yng ngrym teithio ac antur. I gysylltu pobl â'i gilydd, â natur, yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth.

Mae hostela yn gwneud teithio ac antur yn hygyrch i bawb, ym mhobman. Mae'r YHA yn rhedeg safleoedd ledled Cymru a Lloegr – cymuned o fannau a rennir sy'n agored i bawb ac er budd pawb.

Rydym yn cynnig anturiaethau cynhwysol, mewn adeiladau hynod, mewn lleoedd rhyfeddol.

Rydym yn fenter gymdeithasol flaenllaw ac yn rhan o fudiad rhyngwladol 90 oed. Elusen ar genhadaeth i gyfoethogi bywydau pawb, ond yn enwedig pobl ifanc, a gwella iechyd corfforol, lles meddyliol a sgiliau bywyd drwy'r profiadau a grëwn.

Ni yw YHA.

Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.

Gweithio tuag at strategaeth i'r YHA yng Nghymru

Bu'r ddwy flynedd ddiwethaf yn anodd. I bawb ohonom. I'n helusen, i'r sector teithio a lletygarwch, i'r gymdeithas yn gyffredinol. Ond yn fwyaf anodd i bobl ifanc a theuluoedd â bywydau heriol ac yn wynebu caledi cynyddol.

Mae llawer ynghylch y dyfodol yn ansicr o hyd. Eto i gyd mae effeithiau'r pandemig ar iechyd a'i effeithiau cymdeithasol ac economaidd wedi atgyfnerthu ein cred yng ngrym teithio ac antur i gysylltu pobl â'i gilydd, â'r awyr agored, natur, diwylliant a threftadaeth.

Yn gynnar yn 2020, cyhoeddasom ein strategaeth 10-mllynedd, Antur. Am y tro cyntaf ac am oes. Gan adeiladu ar ddegawd o foderneiddio, bydd ei huchelgeisiau yn ein gweld yn cyrraedd mwy o bobl ac yn cynyddu ein heffaith, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai a allai gael y budd mwyaf mewn cyfnod lle mae ein hangen yn fwy nag erioed.

Yn ystod yr ymgynghoriad, clywsom gan aelodau o Gymru a rhanddeiliaid yng Nghymru, a chynorthwyodd eu cyfraniad i greu ein strategaeth 10-mllynedd.

Yn awr mae arnom angen strategaeth i Gymru sydd wedi'i theilwra i Gymru a'i chryfderau, heriau a blaenoriaethau penodol.

Mae gan Gymru ei hanes, treftadaeth, iaith, tirweddau, cymunedau a Llywodraeth unigryw ei hun. Er mwyn inni gefnogi pobl a chymunedau yng Nghymru'n well, mae angen inni gydnabod hyn mewn ffordd nad ydym wedi gwneud yn y gorffennol.

Mae gan Gymru ei pholisi a'i hagenda ddeddfwriaethol neilltuol ei hun. Nod ein strategaeth i Gymru yw sicrhau bod yr YHA yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau hyn gan gynnwys amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r ddogfen sgwrsio hon yn nodi ein hymrwymiad i bobl, partneriaid a chymunedau Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn rhannu'ch meddyliau gyda ni yn ystod y sgwrs.

Yr YHA yng Nghymru

Lle dechreuodd y cyfan

Gyda'n strategaeth 10-mlynedd, rydym yn dychwelyd i werthoedd craidd ein gwreiddiau, i'n dechreuad. Yn deillio o drychinebau economaidd a galw am ddiwygio cymdeithasol, penderfynodd ein sylfaenwyr wella bywydau a chyfleoedd bywyd pobl ifanc trwy ddarparu mynediad at gyfleoedd, cefn gwlad, gweithgareddau hamdden ac antur. Ym Mhrydain, daeth egin gwyrd cyntaf hostela i'r golwg yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 1929, teithiodd saith ffrind o gangen Lerpwl o sefydliad Holiday Fellowship i'r Almaen er mwyn cael gwybod beth oedd hanfod aros mewn hosteli ieuencid. Roeddent yn awyddus i ddod â'r syniad i Brydain, felly aethant ati i sefydlu'r hostel arbrofol gyntaf yn Neuadd Pennant yng nogledd Cymru, mewn pryd am y Nadolig. Agorodd mwy o hosteli o amser y Pasg 1931 ymlaen, gyda phedair yng nogledd Cymru – gan gynnwys Bwthyn Idwal yr YHA, hostel hynaf ond un yr YHA sy'n dal i gael ei defnyddio.



Yr YHA yng Nghymru heddiw

Mae gan yr YHA hanes i ymfalchio ynddo, brand y mae pobl yn ymddiried ynddo ac oddeutu 130,000 o aelodau, rhoddwyr a gwirfoddolwyr ffyddlon.

Yn 2019/20*

Croesawodd yr YHA

Un miliwn o westeion

Arhosodd tua 12% yng Nghymru



Gan fod y rhan fwyaf o'n gwsteion yng Nghymru'n dod o wledydd eraill, rydym yn falch i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflwyno gogoniant Cymru i ymwelwyr, trwy dwristiaeth gynaliadwy.



Rydym hefyd yn gweld rôl yr YHA yn un all gyflwyno pobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru i'r rhwydwaith hostela ehangach, boed hynny dros y ffin yn Lloegr neu'n ehangach gyda'n partneriaid rhyngwladol ledled Ewrop a'r byd.

Rydym ni eisiau gwneud mwy dros y bobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru.

Mae'r YHA yn rhedeg

21 o hosteli

yng Nghymru

Tua 15% o rwydwaith hosteli'r elusen yw hyn. Mae'r eiddo hyn yn arwyddocaol yn lleol ac maent yn cynnig mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog Cymru.

O'r

120,000

o bobl hyn, roedd

34%

o dan 26 oed

15%

yn byw yng Nghymru

73%

o Loegr

12%

yn ymwelwyr rhyngwladol

*Ffigurau 2019/20 yw'r rhain gan eu bod yn fwy cynrychioladol o faint a chyrhaeddiad yr YHA na'r rhai a gafwyd yn ystod cyfnod COVID. Mae'r data wedi'u cymryd o'n system bwcio awtomatig. Nid yw pob ymweliad wedi'i gofnodi trwy'r system hon felly dangosol yn unig yw'r ffigurau.

Meithrin pobl ifanc yng Nghymru

Yn 2019/20 cafodd

oddeutu 8,000

o bobl ifanc brofiad dysgu preswyl yng Nghymru trwy eu hysgol neu grŵp ieuenctidŷ

Dim ond 8%

o'r rhain oedd yn bobl ifanc o 23 o ysgolion yng Nghymru



Sut allwn ni roi cefnogaeth well i addysg a datblygiad personol pobl ifanc Cymru – y rhai mewn addysg brif-ffrwd a'r rhai sy'n rhan o ddarpariaethau amgen?

oddeutu 5,000

o bobl ifanc a theuluoedd sydd â bywydau heriol arhosiad â chymorth trwy Raglen Seibiannau YHA

Dim ond 5%

o'r rhain oedd yn dod o Gymru



Rydym ni eisiau sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ifanc a theuluoedd sydd â bywydau heriol yng Nghymru, felly rhaid cynyddu'r nifer hon.



Gwirfoddoli, profiad gwaith a chyflogaeth

Ledled yr YHA (Cymru a Lloegr) mae

Oddeutu 500

o bobl ifanc wedi'u cyflogi ar hyn o bryd

Yn 2019/20 roedd

oddeutu 150

o bobl ifanc wedi'u cyflogi yng Nghymru

oddeutu 1,000

o bobl ifanc yn gwirfoddoli gyda'r YHA



Cyfran fach yn unig o'n cyfleoedd gwirfoddoli mae pobl ifanc yn achub arnynt yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod angen inni gysylltu pobl ifanc yn well â'r amrywiaeth fawr o leoliadau gwirfoddoli, hyfforddiant, lleoliadau gwaith a chyfleoedd am swyddi y gallwn eu cynnig yng Nghymru.



Gweithio mewn partneriaeth

Ni allwn wireddu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau yng Nghymru ar ein pen ein hunain; rhaid inni gydweithio ag eraill. Nid ydym yn sefydliad amgylcheddol yn bennaf ond rydym mewn lle da i gyfrannu at y gwaith o warchod byd natur. Nid ydym yn sefydliad iechyd meddwl, ond mae cyrsiau preswyl, gweithgarwch corfforol, bod yn yr awyr agored a diwylliant i gyd yn arwain at lesiant gwell. Nid cadwyn gwestai ydym ni, ond rhaid inni gynnal y safonau uchaf ar gyfer arosiadau dros nos, bwyd a gwasanaeth cwsmeriaid.

Rydym felly eisiau cysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws amrywiaeth o sectorau a chyrrff gan gynnwys:

- ✓ twristiaeth
- ✓ iechyd a llesiant
- ✓ tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant
- ✓ awyr agored
- ✓ treftadaeth a diwylliant
- ✓ sector gwirfoddol a chymunedol
- ✓ addysg
- ✓ ieuencid
- ✓ cyrrff statudol

Llais a chynrychiolaeth pobl ifanc

Rydym wedi sefydlu grŵp llais ieuencid newydd i Gymru, ac ynddo bobl ifanc yn cynrychioli sefydliadau sy'n gweithio yn y sector awyr agored. Mae'r fforwm hwn yn cynnwys pobl ifanc o Dîm Cyngori Ieuencid YHA, Girlguiding Cymru, Scouts Cymru, Cyngor Astudiaethau Maes, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a sefydliadau ieuencid eraill. Byddwn yn sicrhau y caiff lleisiau pobl ifanc eu cynnwys wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Cofiwch gysylltu os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp hwn.

Blaenoriaethau strategol

Ein blaenoriaethau yng Nghymru

Gwyddom fod y materion canlynol yn bwysig yng Nghymru¹ ac yn feysydd y gallwn wneud cyfraniadau sylweddol ynddynt:

- Diwygio addysg a rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith ar draws darparwyr addysg.
- Mae bron un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi, gan gynnwys oddeutu traean o'r holl blant. Mae'r bwlch o ran llesiant rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn tyfu.
- Mae angen cynyddol i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar.
- Presgripsiynu cymdeithasol ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gael gwaith, addysg a hyfforddiant.
- Cefnogi economi werdd, twristiaeth gynaliadwy, trafndiaeth ac ymddygiadau, a gwella ein mannau gwyrdd.
- Gweithio'n fwy cydweithredol i gefnogi'r adferiad o'r pandemig a'r cyfyngiadau a osodwyd o'i herwydd yn 2020/21.

Yn y ddogfen Antur. Am y tro cyntaf ac am oes nodasom 10 blaenoriaeth strategol a fydd yn ein helpu i sicrhau'r newid rydym ei eisiau. Mae pum blaenoriaeth yn canolbwyntio ar ein heffaith ar bobl a'r pump arall yn ein galluogi ni i gyflawni'r effaith hon yn effeithiol, yn effeithlon ac yn unol â'n gwerthoedd.

Mae angen inni wneud yn siŵr y bydd y rhain yn cael effaith ledled Cymru i bobl yng Nghymru. Felly beth mae'r blaenoriaethau hyn yn ei olygu a sut olwg sydd arnynt i'n rhwydwaith hosteli yng Nghymru? I'r bobl a'r cymunedau yng Nghymru yr ydym eisiau eu cefnogi, ac i'r partneriaid, cydweithredwyr a rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y mannau hyn?

¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf>

Blaenoriaethau effaith strategol YHA

1

Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod popeth yn golygu popeth, cynyddu maint a hyd a lled ein cyrhaeddiad a sicrhau bod yr YHA i bawb. **Byddwn yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a mynediad teg** gan ganolbwyntio'n arbennig ar bobl ifanc dan 26 oed a thrwy fynd ati i dargedu ein hymdrechion ar y rhai sydd â bywydau heriol.

2

Byddwn yn cynyddu mynediad at arosiadau oddi cartref ac yn gwella cysylltiadau â natur, yr awyr agored, treftadaeth a diwylliant – gan gydnabod bod ein rhwydwaith hosteli yn cynnig cyfle unigryw i sicrhau bod y pethau hyn i'r mwyafrif ac nid y lleiafrif.

3

Byddwn yn gwella llesiant corfforol a meddyliol trwy ddarparu gweithgareddau a rhaglenni a thrwy gefnogi pobl i weithredu drostynt eu hunain gan ddefnyddio ein hosteli fel canolfan – trwy arosiadau dros nos ac fel rhan o ymweliadau dydd.

4

Byddwn yn datblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd trwy ddatblygu Campws yr YHA a Chwricwlwm yr YHA – i'n staff, gwirfoddolwyr a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw.

5

Byddwn yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol. Byddwn yn annog gwahanol sectorau o'r gymuned sy'n ymweld â ni – dros nos ac am ymweliadau dydd – i ddysgu oddi wrth ei gilydd a gyda'i gilydd. Rydym yn rhan o'r economi rhannu. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n lleoedd a'n manau, a'n rhaglen gweithgareddau, i greu cysylltiadau cryfach â chymunedau lleol.

10

Sut olwg allai fod ar hyn yng Nghymru

Gyda phryder cynyddol ynghylch cost byw, ac iechyd meddwl yn flaenoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru, gallwn wneud gwahaniaeth trwy ddarparu seibiannau â chymorth sy'n cynnig hoe, yn hyrwyddo cysylltiadau â natur, ac yn meithrin sgiliau a chadernid.

- ✓ Gallem greu rhaglen gymorth bwrpasol wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion pobl ifanc a theluoedd â bywydau heriol sy'n byw yng Nghymru.

Mae gan yr YHA hanes cryf o ddarparu tripiâu preswyl o ansawdd da i grwpiau ysgol – gyda 150,000 wedi'u cyflawni yn 2019/20. Rydym wedi treialu cyrsiau preswyl newydd i helpu i hwyluso pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ac wedi datblygu rhaglenni i bobl ifanc mewn darpariaeth amgen. Mae gan Gymru draddodiad cryf o gyrsiau preswyl i bobl ifanc, felly sut all yr YHA ychwanegu gwerth yn y ffordd orau i'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes?

- ✓ Mae angen inni gynorthwyo ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yng Nghymru mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn cydategu, yn y ffordd orau, yr hyn sy'n bodoli eisoes. Yn benodol, y ffocws newydd ar gynefin – creu ymdeimlad o le a pherthyn i bobl ifanc yn eu hamgylchoedd a meithrin dealltwriaeth a pharch at gynefin lleol a'r amgylchedd yn ehangach. Gallem gynnig rhaglenni newydd yng Nghymru sy'n adlewyrchu ei hanes a'i threftadaeth gyfoethog – gan ddatblygu profiadau creadigol, artistig a diwylliannol o natur a'r awyr agored, i gyfoethogi arlwy gyfannol mynediad at dreftadaeth.

Mae Cymru yn doreithiog o asedau naturiol ac eto mae annhegwch o hyd o ran mynediad i'r manau gwyrdd hyn.²

- ✓ Gallem ehangu ac amrywio mynediad i leoedd a rhaglenni'r YHA i'r rhai sydd heb ddigon o wasanaethau ar hyn o bryd trwy fod yn fwy cynhwysol ac amrywiol, yn fewnol ac yn allanol. Gallem weithio gyda phartneriaid all ein cynorthwyo ni yn hyn o beth trwy fentrau fel Dinasyddion Awyr Agored.

Roedd tri o bob pump o'r swyddi a gollwyd yn ystod y pandemig yn perthyn i bobl ifanc dan 25 oed. Rhagwelir y bydd diweithdra ymhlith pobl ifanc yn cynyddu ymhellach, ar gost economaidd o £6.9 biliwn yn ôl yr amcangyfrif yn 2022.³

- ✓ Rydym yn creu cyfleoedd am gyflogaeth a gwirfoddoli trwy YHA Campus. Mae'r rhaglen hon yn cynnig amrywiaeth fawr o leoliadau gwaith, interniaethau, prentisiaethau, cyfleoedd i wirfoddoli a chysiau preswyl ledled y rhwydwaith hosteli ac yn ein swyddfa genedlaethol. Gallem gysylltu mwy o bobl ifanc yng Nghymru â chyfleoedd yn yr economi werdd.

Dylai ein hosteli yng Nghymru berfformio fel asedau lleol pwysig, a chael eu gweld fel y cyfryw.

- ✓ Gallem gefnogi hosteli yng Nghymru i gryfhau eu cysylltiadau â'u cymuned leol. Gallem godi proffil ein hosteli fel bod cymunedau'n gwybod y gellir defnyddio'r lle a'r tiroedd i wasanaethu anghenion lleol - o fannau cyfarfod i'r gymuned i glybiau garddio a lle i grwpiau ieuencid gynnal gweithgareddau.

² https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/693695/ogn-045-by-all-reasonable-means-least-restrictive-access-to-the-outdoors_-004.pdf
³ <https://www.princes-trust.org.uk/about-the-trust/news-views/2021-learning-and-work-research-launch-with-hsb>

Blaenoriaethau galluogi strategol yr YHA

6

Cynnal rhwydwaith hyfiw o hosteli o ansawdd da – lleoedd a mannau – sy'n cydweddu â'n huchelgeisiau strategol.

7

Cyflawni yn unol â fframwaith o feincnodau o safon y diwydiant sy'n defnyddio modelau o'r ansawdd gorau ar draws elusennau, mentrau cymdeithasol, lletygarwch a gwaith gyda phobl ifanc. Gweithio gyda thryloywder a gan ganolbwyntio ar brofiadau ein defnyddwyr – gan ragori mewn gwasanaethau digidol ac all-lein fel ei gilydd.

8

Cefnogi twf trwy barhau i gynhyrchu gwarged arian parod sy'n cefnogi ein bwriad strategol, wedi'i seilio ar egwyddorion menter gymdeithasol.

9

Cydnabod bod y risgiau i'r amgylchedd ac i'r byd a'i boblogaeth yn fygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol trwy gysylltu pobl â natur. Byddwn yn gosod esiampl gryf – yn y ffordd y byddwn yn defnyddio ein hasedau a thrwy ein gwaith gyda phartneriaid byddwn yn helpu i wella'r amgylchedd.

10

Creu cefnogaeth i achos hostela – gan ddefnyddio ein hanes o 90 o flynyddoedd i sefydlu pwysigrwydd hostela i bawb heddiw: gan dyfu nifer yr aelodau ond hefyd faint o aelodau sy'n weithgar gyda'r YHA; ac arwain y mudiad i'r rhai sy'n cefnogi hostela fel ffordd o gyrraedd teithio fforddiadwy ac antur.

Sut olwg allai fod ar hyn yng Nghymru



Byddwn yn parhau i fonitro a gwneud yn siŵr bod ein rhwydwaith hosteli yng Nghymru yn addas i'r diben ac yn gallu gwireddu ein blaenoriaethau o ran effaith.

Fel rhan o strategaeth cyfalaf ehangach yr YHA, rydym yn bwriadu ail-afael yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer YHA, Yr Wyddfa Bryn Gwynant.

Yn 2020, roedd YHA Caerdydd Canolog yn un o nifer o eiddo a gafodd ei addasu at ddibenion gwahanol mewn partneriaeth â chynghorau lleol i gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed a chadw pobl yn ddiogel yn ystod y pandemig. Ers hynny mae'r hostel wedi dod yn rhan annatod o ymagwedd Cyngor Dinas Caerdydd 'Dim troi yn ôl' yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau digartrefedd yn y ddinas a'i ymadferiad o COVID. Gan ddefnyddio'r egwyddorion arweiniol a amlinellir yn strategaeth cyfalaf yr YHA, byddwn yn parhau â sgysiau i lywio'r ffordd y gall y rhwydwaith o hosteli ledled Cymru fod yn fwyaf addas i'r diben.



Byddwn yn dangos ymrwymiad mwy i ddathlu hunaniaeth ac ymdeimlad o le yng Nghymru.

Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r iaith Gymraeg ledled ein sefydliad a byddwn yn creu a bwrw ymlaen â chynllun datblygu Cymraeg ar gyfer yr YHA — gyda'r nod o sicrhau cydnabyddiaeth gan raglen datblygu iaith Comisiynydd y Gymraeg, Cynnig Cymraeg.

Rydym eisiau gwella ein hunaniaeth Gymraeg ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cyfathrebiadau allanol a gweld ei bod yn cael ei hadlewyrchu yn ein timau staff yn yr hosteli ac yn ein strwythurau llywodraethu a'n swyddfa ganolog.



Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i hyrwyddo twristiaeth gymdeithasol a dod yn fwy cynaliadwy.

Rydym eisiau annog pobl ifanc i ddod yn hyrwyddwyr ac amddiffynwyr tanbaid dros fannau a phrosesau gwyrdd.



Ymunwch â'r sgwrs

Er mwyn inni allu gwneud y defnydd gorau o'n hasedau yng Nghymru, mae angen inni glywed gennych chi. Gallwch rannu eich meddyliau, cwestiynau a sylwadau ar ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau yng Nghymru:

Twitter: [@YHAOfficial](#) a thrwy ddefnyddio #YHAWales2022 neu #YHACymru2022

Visit: yha.org.uk/about-yha/yha-in-wales a chwblhau ein [harolwg](#) byr

Email: strategaethcymru@yha.org.uk

Rydym wedi anfon y ddogfen hon at restr hir o bobl – gan gynnwys ein timau ledled Cymru a Lloegr, aelodau, cefnogwyr, partneriaid presennol a rhanddeiliaid. Efallai eich bod yn adnabod eraill a hoffai gyfrannu, felly gofynnwn ichi ei rhannu â'ch rhwydweithiau.

Byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau agored er mwyn clywed oddi wrth bobl yn uniongyrchol. Os hoffech chi ymuno, gofynnwch i yha.org.uk/about-yha/yha-in-wales i gael y manylion diweddaraf am y sesiynau hyn a ffyrdd eraill i gyfrannu.

Cwestiynau i chi eu hystyried:

- Ydych chi'n meddwl bod yr hyn yr ydym yn ei amlinellu o gymorth i'ch gwaith chi? A oes mentrau neu raglenni rydyn chi'n gweithio arnynt y gallwn ni eu cefnogi?
- Ydych chi'n gweld unrhyw ddyblygu? Ydyn ni'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn ychwanegu at neu'n cydategu'r hyn sydd ar gael eisoes? Os na, beth mae angen inni ei osgoi a pham?
- Unrhyw broblemau bach, heriau neu rwystrau amlwg a all fynd yn y ffordd o ran yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni?
- Gyda phwy mae angen inni weithio? Beth yw'r ffordd orau y gallwn ni weithio gyda nhw?
- Sut all yr YHA helpu i gefnogi sefydliadau eraill sy'n gweithio tuag at yr un nodau?
- Pe bai rhaid ichi flaenoriaethu ein rhestr, beth fyddech chi'n ei roi ar y brig? Pam?
- Beth sydd ar goll? Oes yna rywbeth amlwg nad ydym ni'n ei weld?

Cymerwch fwy o ran

Rydym yn chwilio am ffrindiau beirniadol i helpu i gefnogi, herio a bwrw ymlaen â'n gwaith yng Nghymru ar sail fwy rheolaidd a ffurfiol. Mae hyn yn debyg o arwain at grŵp cynghori a fydd yn cwrdd drwy gydol y flwyddyn.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn gweithwyr addysg proffesiynol, y rhai sy'n gweithio yn y sector ieuencid neu'r sector gweithgareddau awyr agored, a'r rhai fydd yn gallu ein helpu ni i wella ein harferion gweithio teg a chynhwysol.

Os hoffech gael gwybod mwy, cysylltwch â Rheolwr Datblygu Cymru Emma Robinson trwy e-bost emmarobinson@yha.org.uk neu ar [07908 788 873](tel:07908788873).

Dechrau'r sgwrs yw hyn: bydd yr ymgynghoriad cyntaf hwn yn cau tua diwedd yr haf. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau yn ddiweddarach eleni ac yn cynnal digwyddiad lansio yn yr hydref er mwyn rhannu'r ffordd y llywiodd hyn ein strategaeth i Gymru.

Diolch am eich cyfraniadau ac am barhau i gefnogi a herio'r YHA.

Ni yw YHA.

Rydym yn trawsnewid bywydau ifanc am byth trwy deithio ac antur go iawn.

Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi

aros | ymuno | rhoi | gwirfoddoli yha.org.uk